# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 14fed o Chwefror 2017 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Is-Gadeirydd), Gerallt Davies, Jocelyn Andrew, Ruby Williams, Wyn Evans, Garym Roberts ac Eiddwen Merritt.
Barry Owen.
**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Sirol John Lumley a'r Clerc.
**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Wyn Jones a Barry Owen.
**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Datblygiad Fferm Bargoed**

Daeth llawer o drigolion Llwyncelyn a'r cyffuniau i'r cyfarfod yn datgan eu pryder am y datblygiad a'r amodau sy'n ynghlwm â'r cynllunio i Fferm Bargoed fel safle carafannau, bythynnod a siop fferm.

Gofynwyd i'r clerc ysgrifennu i'r Adran Gynllunio yn gofyn eglurhad drylwyr o'r amodau.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Dim

**Talu anfoneb:**

Aelodaeth Un Llais Cymru - £146.00.

**Materion Cynllunio**

Dim.

**Arolwg o'r Trefniadau Etholiadau ar gyfer Sir Ceredigion**

Darllenwyd llythyr a ddanfonwyd i'r Prif Weithredwr oddiwrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn sôn am yr arolwg o'r trefniadau etholiadol sy'n dechrau ar 26 Ionawr 2017 ac yn cau ar 19 Ebrill 2017.

**Ceisiadau am arian**
Penderfynwyd drafod y ceisiadau am arian yng nghyfarfod Mis Mawrth.
**Unrhyw Fater Arall**
Casglwyd enwau o'r aelodau oedd am fynd i'r ginio a trefniadau'r noson.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50.

Bydd y cyfarfod nesa' ar y 14eg o Fawrth.